

Cyngor Cymuned Llanycil.

Cyfarfu'r Cyngor nos Fawrth, Ionawr 13eg 2015 yn Neuadd Maesywaen. Yn bresennol oedd Jean Roberts (Cadeiryddes), Gwynfryn Williams, Euros Puw, Gwynedd Jones, Gwilym Davies, Rhys Richards, Geraint Jones a'r clerc.

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan Arwel Davies, Geraint Davies a'r Cyng. Elwyn Edwards.

Darllenwyd cofnodion y cyfarfod diwethaf, a chafwyd hwy yn gywir.

Materion vn codi o'r cyfarfod diwethaf.

Ysgol Y Parc.

Adroddodd y clerc bod cyfarfod wedi cael ei drefnu yn yr Henblas dydd Mercher 21ain rhwng Cyngor Gwynedd, Pwyllgor Neuadd Parc a'r Cyngor Cymuned i geisio cwblhau'r gwerthiant. Cytunodd Gwynedd Jones a Rhys Richards fynychu'r cyfarfod gyda'r clerc. Cytunwyd i arwyddo siec ar gyfer gost y gwerthiant i osgoi unrhyw oedi pellach yn y trosglwyddo.

Ymateb i'r cwynion a anfonwyd i Cyngor Gwynedd.

- a) Roedd y ddau deiar lori wedi cael eu clirio o'r gilfan ar y A4212 ger cyffordd Rhyduchaf.
- b) Roedd y cais i gael arwydd blaenoriaeth traffig ar bont Fedw Arian, Rhyduchaf wedi cael ei anfon ymlaen i'r adran berthnasol yng Nghaernarfon.
- c) Yn dilyn trafodaethau gyda'r cynghorwyr roedd yr Adran Briffyrdd wedi cytuno:-
 - i) i osod gridiau ger y Garth, Arenig.
 - ii) i drefnu cyfarfod safle gyda Geraint Davies ynglŷn ag atgyweirio'r ffordd ar ôl i'r contractwyr dwr ei ail dario.
 - iii) ysgubo ac ymgymryd â gwaith ar y draen rhwng Llwyn Hir a Hafod Fadog, Parc.

Gwefan Cynghorau Penllyn.

Cafwyd cadarnhad gan y clerc bod y wefan wedi cael ei chwblhau ac roedd y gwaith papur perthnasol wedi cael ei anfon ymlaen i Gyngor Gwynedd er mwyn iddynt dalu'r arian tuag at gostau creu'r wefan.

Gohebiaeth.

Derbyniwyd yr ohebiaeth ganlynol:-

a) Partneriaeth Penllyn / Cwmni Pum Plwy Penllyn

- i) Derbyniwyd braslun o'r hyn a drafodwyd yn eu cyfarfod diwethaf. Cytunwyd i ofyn i'r Bartneriaeth roi sylw i'r gordyfiant ar y llwybr troed rhwng Tegfan a Gwernydd, Parc.
- ii) Drwy'r Bartneriaeth derbyniwyd gwybodaeth am Cynhadledd Mynyddoedd Pawb a gynhelir yng Ngwersyll yr Urdd, Glan-llyn ar y 7fed o Chwefror.

b) Cyngor Gwynedd.

Derbyniwyd llythyr ynglŷn â threfnu sesiynau hyfforddiant i gynghorau cymuned ar faterion yn ymwneud a'r Cod Ymddygiad. Nid oedd gan y Cyngor unrhyw sylwadau i'w gynnig felly cytunwyd i drafod y mater pan fydd manylion y cyrsiau yn cael ei gadarnhau.

c) Llywodraeth Cymru.

Derbyniwyd gwybodaeth am yr ymgynghoriad ar y 'Cynllun Trafnidiaeth Cenedlaethol'.

Ceisiadau Cynllunio.

Derbyniwyd y ceisiadau cynllunio canlynol a chytunwyd i'w cefnogi:-

NP5/72/224A - Cais Adran 73 i ddiddymu amodau mewn perthynas â gofynion 'Cod Cartrefi Cynaliadwy'. Frongain, Maesywaen.

N5/72/LB92B – Caniatâd Adeilad Rhestredig i gadw newidiadau mewnol ac allanol a gyflawnwyd heb ganiatâd. Rafel, Parc.

Derbyniwyd cadarnhad bod y cais canlynol wedi cael ei ganiatáu:-
NP5/72/86A - Adeiladu garej/storfa ar wahân. Tŷ Isaf, Rhyduchaf.

Materion Ariannol.

a) Cyllideb a Praesept 2015-16.

Cafwyd braslun o'r gyllideb ar gyfer 2015-16 gan y clerc, a chafwyd yn gywir. Yn dilyn trafodaeth cytunwyd i gadw'r Praesept i £3,300 ar gyfer 2015-16.

b) Cytunwyd i dalu'r canlynol:-

i) TGTHE (TWE)

ii) Cyflog y clerc (Hyd - Rhag)

iii) HG Web Designs (gwefan newydd y Cyngor)

c) Derbyniwyd cais ariannol gan Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd. Cytunwyd i'w thrafod gyda gweddill y ceisiadau ariannol ym mis Mawrth.

Materion Lleol.

Cyn clerc yn dathlu ei ben-blwydd yn 100 oed.

Gofynnwyd i'r clerc anfon cerdyn i'r gyn clerc Sam Jones a oedd yn dathlu ei ben-blwydd yn 100oed.

Ffens diogelwch ar y A4212 ger Rhydyfen.

Gofynnwyd i'r clerc gysylltu â Chyngor Gwynedd i weld os oedd unrhyw ddatblygiad yn eu cais i sicrhau arian i osod y ffens diogelwch gan fod nifer o geir wedi gwyro dros yr ochr ers y tro diwethaf i'r Cyngor drafod y mater.

Gofynnwyd i'r clerc basio'r cwynion canlynol ymlaen i Gyngor Gwynedd:-

Gwasanaeth ailgylchu

Derbyniwyd cwynion pellach bod y gweithwyr yn anghofio cau drysau'r lori ac roedd poteli plastig ayyb yn cael ei lluchio allan ar hyd y ffordd yn Rhyduchaf.

Clirio ffosydd rhwng Pengelli a Ffridd Isaf, Llidiardau ac ar riu Plas Madog, Parc.

Gofynnwyd i'r clerc hysbysu'r Adran Briffyrdd bod angen clirio'r ffosydd ar y safleoedd gan fod dŵr yn gorlifo i'r ffyrdd.

**Cynhelir y cyfarfod nesaf ar Nos
Fawrth, Chwefror 10fed yn Neuadd
Maesywaen am 8.00y.h.**